



PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 8 GORFFENAF 2022

PWNC

POLISIŌAU / CYNLLUNIAU NEWYDD

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo:

- **Polisi Canu'r Gloch**
- **Cynllun Parhad Busnes y Bartneriaeth**

RHESYMAU:

Datblygwyd Polisi Canu'r Gloch a Chynllun Parhad Busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac mae gofyn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu eu cymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol
Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

DYDDIAD 8 GORFFENAF 2022

POLISIÄU / CYNLLUNIAU NEWYDD

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Datblygwyd Polisi Canu'r Gloch ar gyfer y Bartneriaeth sy'n darparu canllawiau i Bersonél a darparwyr y Bartneriaeth ar sut i godi pryderon petai ganddynt unrhyw amheuan bod camymddygiad gan unrhyw un sy'n gweithio i neu ar ran y Bartneriaeth. Mae'r polisi hefyd yn nodi'r mesurau amddiffynnol a ddarperir gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ("PIDA"). Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

Yn ogystal, datblygwyd Cynllun Parhad Busnes sy'n amlinellu sut fydd y Bartneriaeth yn parhau i weithredu yn ystod amhariad annisgwyl i'r gwasanaeth. Mae atodiad i'r Cynllun, na ddylid ei gyhoeddi, yn cynnwys manylion yr unigolion i gysylltu â hwy petai problem yn digwydd sy'n rhwystro unrhyw un o prif gyrrff llywodraethu'r Bartneriaeth, sef yr Awdurdod Lletya, Awdurdodau Cyfansoddol, y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r GS, yn ogystal â chyflenwyr allweddol y Bartneriaeth rhag gweithio'n effeithiol. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn ôl yr angen.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi Bydd y Polisi Canu'r Gloch a'r Cynllun Parhad Busnes yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN